

Ar ddydd Mawrth 19 Ionawr 2010 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn am 7.00pm

PRESENNOL: Y Cyng. R Owen (Cadeirydd); Mrs G Price; Mrs E Davies; D Sheppard; DM Hughes; Trefor Davies; Melvyn Evans; D R Morgan, Mrs K Walker a'r clerc. Ymunodd y Cyng. D Jones â'r Cyfarfod am 7.30pm. Roedd y Cyng. Sir D Suter yn bresennol.

2676 Ymddiheuriadau am absenoldeb - dim

2677 Materion Personol - dim

2678 **Datgan Buddiant Personol/Rhagfarnol:** Datganodd Y Cyng. D R Morgan fuddiant personol/rhagfarnol yng Nghofnod 2693 ynghylch Neuadd y Penrhyn. Datganodd y Cyng. Mrs G Price fuddiant personol/rhagfarnol yng Nghofnod 2693 a Chofnod 2695 ynghylch Cylch Meithrin Trefeurig.

2679 **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2009 fel cofnod cywir (Amg A). Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion.

Cofnod 2655: Aseiad Trosedd ac Anhrefn 2010: Rhoddodd y Cyng. D M Hughes adroddiad ar y ddogfen a chytunwyd ar ymateb i'r holiadur

Cofnod 2657: Canllawiau Cod Ymarfer gan yr Ombwdsman: Amlinellodd y Cyng. R Owen gynnwys y canllawiau drafft a gwahoddwyd y cynghorwyr i ofyn i'r clerc am gopi os oedden nhw'n dymuno cael un.

Cofnod 2651: Biniau Graean: Ar wahoddiad y Cadeirydd, adroddodd y Cyng. Sir D Suter fod cyfarfod o'r Cynghorwyr Sir yn cael ei drefnu, yn dilyn yr anawsterau a gafwyd ledled y Sir adeg y rhew a'r eira trwm, i ystyried darparu biniau graean ychwanegol mewn ardaloedd gwledig sydd ddim ar y llwybrau graeanu. PENDERFYNWYD ysgrifennu at y Cyng Sir R. Quant MBE, Cadeirydd y Pwyllgor Priffyrdd i ailadrodd y cais am finiau mewn manau penodol, ac i nodi bod y sefyllfa'n waeth am nad oedd y ffyrdd yn cael eu hysgubo yn ystod yr hydref.

Cofnod 2675: Darparu alcohol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010: Adroddodd y Cyng. DM Hughes fod nifer o drigolion lleol yn gwrthwynebu'n chwyrn y cais am drwydded i werthu alcohol ar faes Eisteddfod yr Urdd 2010 yn Llanerchaeron. PENDERFYNWYD ysgrifennu i wrthwynebu caniatáu trwydded a gwahoddwyd yr aelodau i arwyddo deiseb petaent yn dymuno.

Cofnod 2675: Clwb Pêl-droed Penrhyncoch: Cadarnhaodd y Cadeirydd fod llythyr wedi'i anfon yn cefnogi cais y Clwb Pêl-droed am grant gan Geredigion i brynu peiriant torri gwair newydd.

2680 **Cyfarfodydd a fynychwyd gan yr Aelodau – dim adroddiadau**

Roedd ymateb y Cyngor i ohebiaeth a dogfennau a dderbyniwyd fel a ganlyn:

2681 **Un Llais Cymru:** Llythyr oddi wrth y Prif Weithredwr yn amgáu'r diweddaraf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Gyngorau Cymuned a Thref. PENDERFYNWYD ei nodi. Dosbarthwyd copïau o gylchgrawn 'Y Llais' ymhlith yr aelodau.

2682 **Cynllun yr Iaith Gymraeg:** Cydnabyddiaeth gan Fwrdd yr Iaith o Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a gymeradwywyd ar 2 Rhagfyr 2009

2683 **Newid Cyfeiriad Post i Penbonrhydybeddau:** Hysbysiad gan y Post Brenhinol bod holl aelwydydd Penbont wedi cytuno i newid y cyfeiriad post. Mae'r trigolion yn aros i gael eu hysbysu'n swyddogol. Y clerc i gysylltu â'r Post Brenhinol.

2684 **Goleuadau Stryd:** Hysbysiad gan Ceredigion y bydd gwaith i droi'r goleuadau stryd i ffwrdd o fewn y gymuned rhwng canol nos â 5 y bore yn dechrau yn Ionawr 2010

2685 **Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru – Adolygiad o'r Trefniadau Etholiadol:** Cytunwyd ar sylwadau ynghylch trefniadau etholiadol Ceredigion a byddant yn cael eu hanfon ymlaen i'r Comisiwn.

2686 **Hawliau Tramwy Cyhoeddus - grantiau torri gwrychoedd 2010:** Hysbysiad gan Ceredigion bod grantiau o 75% ar gael. PENDERFYNWYD gofyn am ddyfynbris ar gyfer torri un llwybr troed ym Mhenbont

2687 **Is-bwyllgor Safonau Ceredigion:** Manylion dyddiadau ac amserau cyfarfodydd i ystyried ceisiadau gan Gyngorwyr am oddefeb. PENDERFYNWYD eu nodi.

MATERION ARIANNOL: Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:

2688 **Linda Griffiths:** Cyfieithu – Rhagfyr 2009 - £43.71 sic 956

Hysbyswyd y Cyngor o'r bwriad i gynyddu'r costau cyfieithu o 01.01.2010 o £2.00 am bob mil o eiriau h.y. i £49. PENDERFYNWYD derbyn a mynegi diolch y Cyngor i Ms Griffiths am ei gwaith

2689 Greenbarnes Ltd: 2 hysbysfwrdd:£1,156.38+TAW £173.46 **Cyfanswm £1,329.84** siec 957

2690 Cyng R Owen: Teithio - 80 milltir @ 50.1c y/f: **£40.08** siec 958

2691 Cyng T Davies: Teithio - 44 milltir @ 50.1c y/f: **£22.04** siec 959

2692 P Walker: 01.10.09-31.12.09: Postio/arian parod £46.23. Teithio 130 milltir @ 60.1c y/f £78.13: **Cyfanswm £124.36** siec 960

2693 Ceisiadau am Grantiau yn y Flwyddyn Ariannol yn diwedd 31.03.2010

Cyllideb rhodd-daliadau - £3,500

Cyflwynwyd manylion yr holl geisiadau i'r Cyngor. Yn unol â Chynllun yr Iaith Gymraeg, nodwyd bod yr ymgeiswyr yn adlewyrchu natur ieithyddol y gymuned.

PENDERFYNWYD cyfyngu'r rhodd-daliadau i sefydliadau lleol, ar wahân i Ambiwllans Awyr Cymru, ac i gyfyngu'r swm ar gyfer pob un i £500 neu lai, ar wahân i Neuadd y Penrhyn. Yn dilyn y penderfyniad hwn, datganodd y Cyng. DR Morgan fuddiant personol/rhagfarnol yn Neuadd y Penrhyn fel Cadeirydd y Pwyllgor a gadawodd y cyfarfod tra roedd y cais hwn yn cael ei drafod.

Datganodd Mrs Price, arweinydd Cylch Meithrin Trefeurig fuddiant personol/rhagfarnol yn eu cais nhw. Fe'i gwahoddwyd i esbonio cefndir y cais ac yna gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ddilynol

<u>Ymgeisydd</u>	<u>Prosiect</u>	<u>Rhodd-daliad</u>	<u>Pŵer</u>	<u>Rhif Siec</u>
G/D Ysgol Trefeurig	Costau Prydles/ailstrwythuro	250	CLIL72 a133	961
Grŵp 60+ Trefeurig	Dosbarthiadau Ymarfer a Chreffft	150	CLILC72 a137	962
Cae Chwarae Penbont	Arwyddion dwyieithog	250	CLIL(DA) 76 a19	963
Clwb Pêl-droed P/coch	Offer a Hyfforddiant	400	CLIL(DA) 76 a19	964
Neuadd y Penrhyn	Yswiriant a Glanhau	750	CLIL72 a133	965
PATRASA	Byrddau Picnic	250	CLIL(DA) 76 a19	966
Clwb Cŵl	Atgyweirio'r man cwrdd	250	CLIL(DA) 76 a19	967
Brownies P/coch	Dathliadau Canmlwyddiant	100	CLIL72 a137	968
Grŵp YmddeolwyrP/C	Bleindiau i'r Ystafell Gyfarfod	150	CLIL72 a137	969
Y Tincer	Costau cynhyrchu	250	CLIL72 a137	970
Cartref Tregarddan	Cymorth i'r trigolion	250	CLIL72 a137	971
Ambiwllans Awyr Cymru	Cynnal y gwasanaeth	300	CLIL72 a137	972
Cylch Meithrin	Adeilad newydd	150	CLIL(DA) 76 a19	973

Ynghylch Cylch Meithrin Trefeurig: PENDERFYNWYD rhoi ystyriaeth bellach i'r cais hwn wrth drafod cyllideb 2010/2011

2694 Amg. B: 1.Crynodeb o'r Derbynebau a'r Taliadau a Datganiad Cysoni'r Banc ar 31.12.09

Mae'r crynodeb yn dangos bod y balans agoriadol ar 01/04/09 ynghyd â derbynebau hyd at 31/12/09 yn dod i gyfanswm o £14,488.67. Roedd y gwariant dros yr un cyfnod yn £5,037.64 gan roi balans banc net ar 31 Rhagfyr, 2009 o **£9,451.03**

Mae datganiad cysoni'r banc yn cadarnhau hyn.

Cyflwynwyd y llyfr arian parod, y llyfr sieciau, yr anfonebau a'r holl ddogfennau i'r Cyngor ac fe'u gwiriwyd.

2. Adolygiad o'r gyllideb hyd 31.12.2009 ac amcangyfrif o'r gwariant hyd 31.03.2010

Roedd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd 31.03.10 yn £14,000.

£3,500 ar gyfer rhodd-daliadau; £1,500 ar gyfer Gwariant Cyfalaf, £1,000 Wrth Gefn ac £8,000 ar gyfer Gwariant Cyffredinol.

Mae'r £5,038 a wariwyd hyd yn hyn yn Wariant Cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys Gweinyddu, Yswiriant, Hyfforddiant, Cynnal a Chadw, cyflogau, teithio a chostau cyffredinol eraill. Bydd y balans o £2,962 yn ddigonol i gwrdd â'r gwariant cyffredinol arferol hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol, na ddylai fod yn fwy na £1,655, oni bai bod Ceredigion yn codi tâl am wagio'r biniau baw cŵn. Bydd y balans gwariant cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol tua £1,307.

Rhodd-daliadau: Mae'r gyllideb rhodd-daliadau o £3,500 wedi'i dyrannu heddiw

Gwariant Cyfalaf: Archebwyd dau hysbysfwrdd ar gost o £1,360 gan adael balans o £140 Cynyddwyd o Gronfa Wrth Gefn sy'n £1,000 o £500 ym mis Hydref

3. Swm amcangyfrifol i'w ddwyn ymlaen ar 31.03.2010

- Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, gydag ad-daliad TAW o £300, bydd gan y Cyngor falans banc amcangyfrifol o £3,200
- Mae'r swm hwn yn cynnwys y gronfa wrth gefn o £1,500 a'r £1,700 a gafodd ei ddwyn ymlaen
- 2695 Cyllideb 2010/2011 (Amg C)**
Bu'r £14,000 a ganiatwyd ar gyfer gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol 2009/10 yn ddigonol i gwrdd ag ymrwymadau'r Cyngor a dylai'r flwyddyn ddiweddu gyda thua £1,700 mewn llaw
Mae'r swm dros ben yn rhannol oherwydd na wariwyd ar nifer o eitemau y caniatwyd ar eu cyfer dan y Gwariant Cyffredinol, gan gynnwys £500 am wagio'r biniau baw cŵn; glanhau cabannau aros bws a thrasio llwybrau troed. Nid yw Ceredigion wedi anfonebu ar gyfer gwagio'r biniau baw cŵn ac rydym wrthi o hyd yn ceisio cael amcanbrisiau ar gyfer glanhau cabannau aros bws a thrasio llwybrau troed. Ychydig iawn a fanteisiodd ar y Cyrsiau Hyfforddi a dim ond £50 o'r £300 a ddyrannwyd sydd wedi'i wario. Roedd y costau archwilio hefyd £115 yn is na'r disgwyl.
Bu'r Aelodau'n ystyried a ddylid gostwng y swm a glustnodir ar gyfer Gwariant Cyffredinol ond, yng ngoleuni'r cynnydd a ragwelir yng nghostau postio, cyfieithu a chostau ffôn, a'r cynnydd mewn prisiau'n gyffredinol, PENDERFYNWYD:
Cadw'r gyllideb Gwariant Cyffredinol yn £8,000
Cadw'r Gronfa Wrth Gefn yn £1,500
Y bydd y Gwariant Cyfalaf unwaith eto'n £1,500: Mae nam yn rhan uchaf y polyn baner gwyrdd ffibr ym Mhenrhynoch ac mae angen un newydd. Mae'r gost amcangyfrifol yn £400. Bydd angen gliniadur swyddfa newydd yn fuan hefyd.
Rhodd-daliadau: Mae angen i Gylch Meithrin Trefeurig ddod o hyd i adeilad arall gydag ardal chwarae ddiogel y tu allan iddo ar frys. Mae ymchwiliadau ar y gweill i rentu neu brynu caban i'w osod ger Ysgol Penrhynoch a gofynnwyd i'r Cyngor Cymuned am ei gefnogaeth.
PENDERFYNWYD: **Cynyddu'r gyllideb rhodd-daliadau i £4,500:** £3,500 ar gyfer rhodd-daliadau cyffredinol a £1,000 pellach i'w glustnodi ar gyfer Cylch Meithrin Trefeurig i'w helpu i ariannu'r adeilad newydd os bydd y prosiect yn mynd rhagddo, a bod angen cymorth ariannol arnynt
Cyfanswm cyllideb 2010/2011: £15,500
- 2696 Yr Archebiant ar gyfer 1 Ebrill 2010 hyd 31 Mawrth 2011**
I gwrdd â chyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, bydd angen cynyddu'r Archebiant o £1,000 i £13,000. Bydd hyn, ynghyd a'r £3,200 amcangyfrifol fydd yn cael ei ddwyn ymlaen yn gwneud cyfanswm o £16,200
PENDERFYNWYD gosod Archebiant i Geredigion o £13,000
- 2697 Adolygiad o Aseiad Risg y Cyngor:** PENDERFYNWYD gohirio'r eitem hon hyd Cyfarfod mis Chwefror.
- 2698 Penderfyniadau Cynllunio: A090774** 50 Dolhelig P/coch: Rhoddwyd caniatâd ar gyfer estyniad
- 2699 Ceisiadau Cynllunio: A090869** Banc Llety Spence, Cwmerfyn – estyniadau: Dim sylwadau
A090873 I'r Gorllewin o Gwelfor, P/coch – sied amaethyddol: Gwrthwynebu'r cais; ddim yn gydnaws â'r ardal o'i amgylch a'r ffordd yn rhy gul wrth gyffordd y fynedfa i'r safle
- 2700 Cynhelir y Cyfarfod nesaf yn Ysgol Trefeurig am 7.00pm ar ddydd Mawrth, 23 Chwefror, 2010**
- 2701 Cytunwyd i osod y canlynol ar yr agenda nesaf:**
Cais i lanhau caban aros bws Trefeurig. Ymholiad ynghylch casglu deunydd ailgylchu yn Nhaf'r Goedwigaeth, Penrhynoch. Cyflwr gwael wyneb y ffordd rhwng Plas Iorwerth ac IBERS.

Daeth y Cyfarfod i ben am 10.00pm.